OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 991 (Cy.140)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*2 Ebrill 2003*
Yn dod i rym - -	*10 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 66 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954(**1**), fel y caiff ei chymhwyso gan adran 22(5) o Ddeddf Diwygio Lesddaliad 1967(**2**), ac a freinir ynddo bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**3**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio

2. Yn yr Atodlen i Reoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) 1997(**4**)) yn lle Ffurflen 3, rhoddir y Ffurflen sydd yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Gwneud cais

3. Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i hysbysiad a roddir yn ymateb gan landlord ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yn unol â pharagraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio Lesddaliad 1967.

(**1**) 1954 p.56. Diwygiwyd adran 66(1) a (2) gan O.S. 1974/1896.
(**2**) 1967 p.88.
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) O.S. 1997/640; amnewidiwyd ffurflenni 1 a 2 newydd gan O.S. 2002/3187 (Cy.303).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D. Elis-Thomas
2 Ebrill 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

ATODLEN Rheoliad 2

FORM OF LANDLORD'S NOTICE UNDER PART 1 OF THE LEASEHOLD REFORM ACT 1967

FORMLEASEHOLD REFORM ACT 1967